# Llawlyfr i Gynghorwyr, Adran D - Disgrifiadau Rôl a Manylebau Person

**Cynnwys**

1 Swydd Cynghorwyr
2 Disgrifiad Rôl a Manyleb Person Aelod Etholedig
3 Disgrifiad Rôl a Manyleb Person Arweinydd a Dirprwy Arweinydd
4 Disgrifiad Rôl a Manyleb Person Aelod y Cabinet
5 Disgrifiad Rôl a Manyleb Person Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor
6 Disgrifiad Rôl a Manyleb Person Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Rheoleiddio
7 Disgrifiad o Rôl a Manyleb Person Aelod o Bwyllgor Rheoleiddio
8 Disgrifiad o Rôl a Manyleb Person Cadeirydd Craffu
9 Disgrifiad o Rôl a Manyleb Person Cadeirydd Craffu
10 Disgrifiad o Rôl Cynullydd Craffu
11 Disgrifiad o Rôl a Manyleb Person Aelod Craffu
12 Disgrifiad Rôl Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Brif Wrthblaid
13 Disgrifiad Rôl Arweinydd a Dirprwy Arweinydd Gwrthbleidiau Eraill
14 Aelod Hyrwyddo - Disgrifiad Rôl Generig
15 Rôl Hyrwyddwyr Cydraddoldeb yr Aelodau
16 Disgrifiad Rôl Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd
17 Disgrifiad o Rôl Aelod o Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd
18 Disgrifiad Rôl Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
19 Disgrifiad o Rôl Aelod y Pwyllgor Archwilio
20 Disgrifiad Rôl Cadeirydd y Pwyllgor Safonau
21 Disgrifiad o Rôl Aelod y Pwyllgor Safonau
22 Disgrifiad o Rôl yr Aelod Cyfetholedig Craffu
23 Disgrifiad Rôl Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Polisi

## 1 Swyddi Cynghorwyr

| Rôl | Negeseuon allweddol |
|---|---|
| **Penderfynwr** | Aelod o sawl pwyllgor sy'n gwneud penderfyniadau<br>Mae'n gwneud penderfyniadau ynghylch sut cynhelir gwasanaethau'r cyngor<br>Mae'n gwneud penderfyniadau ynghylch cynllunio a thrwyddedu<br>Gall fod yn llywodraethwr ysgol<br>Gall fod yn aelod o bwyllgor canolfan gymunedol neu bartneriaeth gymunedol<br>Bydd yn cynrychioli'ch barn wrth wneud penderfyniadau |
| **Gwirfoddolwr cymunedol** | Mae'n cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau, grwpiau a phrosiectau cymunedol<br>Gall roi cyngor a helpu i drefnu cefnogaeth<br>Gall helpu gwirfoddolwyr i ddod o hyd i rywbeth i gymryd rhan ynddo |
| **Cyfeiriwr** | Bydd yn dweud wrth bobl am wasanaethau a gynigir gan y cyngor ac asiantaethau eraill<br>Gall roi cyngor ar bwy i gysylltu ag ef<br>Gall esbonio pam y gwnaed penderfyniadau gan y cyngor |

| | |
|---|---|
| **Goruchwyliwr** | Gall adrodd am broblemau am wasanaethau cyhoeddus lleol<br>Gall adnabod problemau cyffredin a mynd i'r afael â hwy<br>Aelod o Fyrddau Trosolwg a Chraffu a fydd yn edrych yn fanwl ar rai gwasanaethau<br>Gall godi problemau mewn cyfarfodydd lle gwneir penderfyniadau |
| **Gweithiwr achos** | Ymdrin â phroblemau a chwynion unigol<br>Mae'n rhoi cyngor ac yn awgrymu atebion<br>Gall gynnal cymorthfeydd lleol<br>Bydd yn gweithredu fel cynrychiolydd mewn cyfarfodydd a thrwy lythyrau |
| **Ymgyrchwr** | Gwaith i gefnogi achosion o ddiddordeb personol<br>Gall gefnogi achosion yn y gymuned leol neu ledled Abertawe<br>Gall ymwneud ag elusennau a grwpiau gwirfoddol<br>Gall fod yn 'hyrwyddwr materion' yn y cyngor (e.e. ar gyfer pobl ifanc)<br>Gall roi cyngor ar ymgyrchu |

↥

## 2 Disgrifiad Rôl Aelod Etholedig

1 **Atebolrwydd**

a) I'r cyngor llawn
b) I etholaeth ei ward

2 **Diben a Gweithgareddau'r Rôl**

2.1 **Cynrychioli a chefnogi cymunedau**

a) Cynrychioli buddion ward.
b) Bod yn eiriolwr ar gyfer y cyngor yn y ward a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.
c) Bod yn sianel gyfathrebu i'r gymuned ar strategaethau, polisïau, gwasanaethau a gweithdrefnau'r cyngor.
ch) Cynrychioli etholwyr unigol a sefydliadau lleol, ymgymryd â gwaith achos ar eu rhan a gwasanaethu pawb yn deg ac yn gyfartal.
d) Cysylltu ag aelodau gweithredol, aelodau eraill y cyngor, swyddogion y cyngor a sefydliadau partner i sicrhau bod anghenion cymunedau lleol yn cael eu nodi, eu deall a'u cefnogi
dd) Hybu goddefgarwch a chydlyniant mewn cymunedau lleol.
e) Rhiant Corfforaethol (Gweler Adroddiad y Cyngor ar gyfer 31/03/2011 am fanylion llawn).

2.2 **Gwneud penderfyniadau a goruchwylio perfformiad y cyngor**

a) Cyfranogi'n llawn yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn, cyrraedd a gwneud penderfyniadau gwybodus a chytbwys a goruchwylio perfformiad.
b) Cyfranogi mewn prosesau gwneud penderfyniadau gwybodus a chytbwys ar bwyllgorau a phaneli y gallent gael eu penodi iddynt.
c) Glynu wrth egwyddorion democratiaeth a chydgyfrifoldeb wrth wneud penderfyniadau
ch) Hybu a sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau'r cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill

2.3 **Cynrychioli'r cyngor (yn amodol ar benodiad)**
a) Cynrychioli'r cyngor ar gyrff allanol lleol fel penodwr o'r cyngor.
b) Cynrychioli'r cyngor ar gyrff partneriaeth lleol, hyrwyddo buddion cyffredin a chydweithio er budd i'ch gilydd.
c) Cynrychioli'r cyngor a bod yn eiriolwr iddo ar gyrff cenedlaethol ac mewn digwyddiadau cenedlaethol.

2.4 **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd**
a) Hybu a chefnogi llywodraethu da o'r cyngor a'i faterion.
b) Darparu arweinyddiaeth gymunedol a dinasyddiaeth weithredol
c) Hybu a chefnogi llywodraeth agored a thryloyw.
ch) Cefnogi perthnasoedd parchus, priodol ac effeithiol â gweithwyr y cyngor a glynu wrthynt.
d) Glynu wrth Gôd Ymddygiad yr Aelodau, Protocol Aelodau/Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus.

2.5 **Datblygiad Personol a Datblygiad Rôl**

Cymryd rhan mewn cyfleoedd ar gyfer datblygiad a ddarperir i aelodau gan yr awdurdod.

3 **Gwerthoedd**

3.1 **Bod yn ymroddedig i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus**:

a) Didwylledd a thryloywder
b) Gonestrwydd ac uniondeb
c) Goddefgarwch a pharch
ch) Cydraddoldeb a thegwch
d) Gwerthfawrogi gwahaniaeth diwylliannol
dd) Cynaladwyedd

## Manyleb Person Aelod Etholedig

1 **Er mwyn cyflawni ei rôl fel y'i hamlinellir yn y disgrifiad rôl, mae'n ofynnol bod gan aelod effeithiol:**

1.1 **Cynrychioli a chefnogi cymunedau**

a) Sgiliau eiriolaeth da.
b) Sgiliau rhyngbersonol.

c) Uniondeb a'r gallu i roi eich barn eich hun o'r neilltu, a gweithredu'n deg.
ch) Y gallu i gyflwyno dadleuon perthnasol sy'n rhesymegol dda.
d) Sgiliau cyfathrebu da.

1.2 **Gwneud penderfyniadau a goruchwylio perfformiad y cyngor**

a) Gwybodaeth am gyfraith, rheolau a chonfensiynau cyfarfodydd a dealltwriaeth ohonynt.
b) Dealltwriaeth o gyd-destunau strategol, polisi a gwasanaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau.
c) Y gallu i herio syniadau a chyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu polisïau.

1.3 **Cynrychioli'r cyngor (yn amodol ar benodiad)**

a) Sgiliau siarad cyhoeddus da.
b) Sgiliau cyflwyno da.
c) Y gallu i ddwyn perswâd ar eraill a gweithredu gydag uniondeb.

1.4 **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd**

a) Dealltwriaeth o rolau swyddogion, aelodau ac asiantaethau gwahanol.
b) Parch at grwpiau ac unigolion gwahanol ac awydd i weithio gyda hwy.
c) Gwybodaeth am y Côd Ymddygiad a Phrotocol Aelodau/Swyddogion a dealltwriaeth ohonynt.
ch) Gwybodaeth am werthoedd y cyngor ac ymrwymiad iddynt.

1.5 **Datblygiad Personol a Datblygiad Rôl**

a) Gallu i asesu anghenion personol ac anghenion datblygu rôl.
b) Dyhead a sgiliau i gymryd rhan mewn datblygiad.

↥

## 3 Disgrifiad Rôl Arweinydd a Dirprwy Arweinydd

1 **Atebolrwydd**

a) I'r cyngor llawn
b) I grŵp enwebu

2 **Diben a Gweithgareddau'r Rôl**

2.1 **Darparu arweinyddiaeth wleidyddol i'r cyngor**

a) Bod yn arweinydd gwleidyddol mewn enw ar gyfer y cyngor; bod yn brif lefarydd gwleidyddol ar gyfer y cyngor.
b) Darparu arweinyddiaeth wrth greu consensws gwleidyddol ynghylch polisïau'r cyngor
c) Ffurfio gweledigaeth ar gyfer y cyngor a'r gymuned
ch) Darparu arweinyddiaeth gref a chlir wrth gydlynu polisïau, strategaethau a chyflwyno gwasanaethau

2.2 **Penodi'r Cabinet***

a) Dynodi'r portffolios priodol.
b) Penodi aelodau etholedig priodol ar gyfer pob porffolio.
c) Clustnodi rolau i aelodau'r Cabinet gan ystyried eu galluoedd.
ch) Dynodi'r Dirprwy Arweinydd.

2.3 **Representing and acting as ambassador for the Authority**

a) Cynrychioli'r awdurdod i safon uchel. Darparu ffigwr cryf, cymwys a huawdl i gynrychioli'r awdurdod yn y sir ac mewn cyrff allanol.
b) Cynrychioli'r awdurdod ar bwyllgor cydlynu CLILC a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol CLILC.
c) Darparu arweinyddiaeth a chefnogi partneriaethau a sefydliadau lleol.
ch) Cynrychioli'r awdurdod ar gyrff rhanbarthol a chenedlaethol fel y bo'n briodol.

2.4 **Darparu arweinyddiaeth o fewn y portffolio**

Cyflawni rôl daliwr portffolio, gan ystyried diben a gweithgareddau'r rôl, a manyleb rôl aelod gweithredol.

2.5 **Rheoli ac arwain gwaith y Cabinet a chadeirio cyfarfodydd y Cabinet**

a) Sicrhau y cynhelir y Cabinet yn effeithiol drwy reoli'r blaenraglen waith a sicrhau ei bod yn datblygu'n barhaus.
b) Sicrhau bod gwaith y Cabinet yn bodloni amcanion polisi cenedlaethol.
c) Cynghori a mentora aelodau eraill y Cabinet yn eu gwaith.
ch) Cadeirio cyfarfodydd y Cabinet yn unol â'r cyfansoddiad.
d) Yn absenoldeb yr Arweinydd, dylai'r Dirprwy Arweinydd gyflawni'r rôl honno.

2.6 **Bod yn rhan o waith gwneud penderfyniadau ar y cyd y Cabinet**

a) Gweithio'n agos gydag aelodau eraill y Cabinet i sicrhau y datblygir polisïau cyngor effeithiol a'r fframwaith gyllidebol ar gyfer y cyngor, ac i sicrhau y cyflwynir gwasanaethau o safon i bobl leol.
b) Derbyn cydgyfrifoldeb a chefnogi penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet wedi iddynt gael eu gwneud.

2.7 **Gweithio gyda swyddogion i arwain y sefydliad**

a) To liaise with the Chief Executive, and other appropriate officers, on a regular basis.
b) To work with employees of the Council in relation to the strategic vision and direction of the Council, the management roles of officers and the development of policy issues. **Gweithio gyda swyddogion i arwain y sefydliad**

2.8 **Arwain partneriaethau ac arweinyddiaeth gymunedol**

a) Rhoi arweinyddiaeth i bartneriaethau strategol lleol a phartneriaid lleol wrth fynd ar drywydd nodau a blaenoriaethau cyffredin.
b) Trafod a threfnu mewn achosion o flaenoriaethau sy'n wahanol ac

anghytuno

c) Gweithredu fel arweinydd y gymuned leol drwy ddangos gweledigaeth a rhagweledIad.

2.9 **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd**

a) Hybu a chefnogi llywodraethu da o'r cyngor a'i faterion.
b) Darparu arweinyddiaeth gymunedol a dinasyddiaeth weithredol
c) Hybu a chefnogi llywodraeth agored a thryloyw.
ch) Cefnogi perthnasoedd parchus, priodol ac effeithiol â gweithwyr y cyngor a glynu wrthynt.
d) Glynu wrth Gôd Ymddygiad yr Aelodau, Protocol Aelodau/Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus.

3 **Gwerthoedd**

3.1 **Bod yn ymroddedig i'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus, a'u harddangos**:

a) Didwylledd a thryloywder;
b) Gonestrwydd ac uniondeb;
c) Goddefgarwch a pharch
ch) Cydraddoldeb a thegwch;
d) Gwerthfawrogi gwahaniaeth diwylliannol;
dd) Cynaladwyedd;
e) Arweinyddiaeth Gynhwysol;
f) Adeiladu consensws.

3.2 **Dirprwy Arweinydd**

a) Cyflawni dyletswyddau'r Arweinydd pan fydd yn absennol.

b) Cynorthwyo'r Arweinydd gyda dyletswyddau penodol yn ôl y galw.

*Dan drefniadau cyfansoddiadol ar gyfer model o Gabinet, gall naill ai'r Cyngor Llawn neu'r Arweinydd benodi'r Cabinet. Yng Nghymru, mae'n arfer cyffredin i'r Arweinydd benodi Cabinet yn unol â'r model hwn.

## Manyleb Person Arweinydd a Dirprwy Arweinydd

1 **Er mwyn cyflawni ei rôl fel y'i hamlinellir yn y disgrifiad rôl, mae'n ofynnol bod gan arweinydd effeithiol::**

1.1 **Darparu arweinyddiaeth wleidyddol i'r cyngor**

a) Wybodaeth am gryfderau cymunedol, meysydd ar gyfer gwella a materion allweddol.
b) Dealltwriaeth o'r berthynas rhwng gwleidyddiaeth genedlaethol a lleol.
c) Ymwybyddiaeth strategol dda o faterion sy'n wynebu'r cyngor.
ch) Dealltwriaeth o strategaethau, polisïau a gweithrediadau'r cyngor.

1.2 **Penodi'r Cabinet**

a) Dealltwriaeth o'r rheolau ar gyfer penodi Aelodau'r Cabinet.
b) Y gallu i adnabod dawn ymhlith aelodau
c) Y gallu i drafod y penodiadau mwyaf manteisiol o fewn grwpiau gwleidyddol ac ar eu traws
ch) Y gallu i arfarnu, arwain a mentora uwch-aelodau

1.3 **Cynrychioli'r awdurdod a gweithredu fel llysgennad ar ei gyfer**

a) Sgiliau cyfathrebu lefel uchel i gyfathrebu â'r cyfryngau, y gymuned leol a chynulleidfaoedd ehangach.
b) Sgiliau siarad cyhoeddus da.

1.4 **Darparu arweinyddiaeth o fewn y portffolio**

Y sgiliau sy'n angenrheidiol er mwyn i Aelod y Cabinet gyflawni ei rôl.

1.5 **Rheoli ac arwain gwaith y Cabinet a chadeirio cyfarfodydd y Cabinet**

a) Dealltwriaeth o reolau gweithdrefnau'r Cabinet
b) Sgiliau i gadeirio cyfarfodydd gan gynnwys annog yr holl aelodau i gymryd rhan.
c) Gwybodaeth am amcanion polisi cenedlaethol a dealltwriaeth ohonynt
ch) Trosolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan aelodau'r Cabinet.

1.6 **Bod yn rhan o waith gwneud penderfyniadau ar y cyd y Cabinet**

Y gallu i herio penderfyniadau'n gadarnhaol ac awgrymu rhai amgen.

1.7 **Gweithio gyda swyddogion i arwain y sefydliad**

Dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a swyddogion eraill

1.8 **Arwain partneriaethau ac arweinyddiaeth gymunedol**

a) Sgiliau arweinyddiaeth hyblyg.
b) Sgiliau trafod a threfnu.
c) Sgiliau creadigol a meddwl ochrol; y gallu i edrych i'r dyfodol a bod yn rhagfynegol.

1.9 **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd**

a) Dealltwriaeth o rolau swyddogion, aelodau ac asiantaethau gwahanol.
b) Parch at grwpiau ac unigolion gwahanol ac awydd i weithio gyda hwy.
c) Gwybodaeth am y Côd Ymddygiad a Phrotocol Aelodau/Swyddogion a dealltwriaeth ohonynt.
ch) Gwybodaeth am werthoedd y cyngor ac ymrwymiad iddynt.

↥

## 4 Disgrifiad Rôl Aelod y Cabinet

1 **Atebolrwydd**

a) I'r Arweinydd;
b) I'r Cabinet (drwy gydgyfrifoldeb);
c) I'r cyngor llawn.

2 **Diben a gweithgareddau'r rôl**

2.1 **Darparu arweinyddiaeth ar bortffolios**

a) Rhoi cyfeiriad gwleidyddol i swyddogion sy'n gweithio o fewn y portffolio.
b) Ennill parch swyddogion sydd yn y portffolio; darparu cefnogaeth i swyddogion wrth roi portffolios rhaglenni ar waith.
c) Darparu arweinyddiaeth yn y portffolio.
ch) Cysylltu â'r Cadeirydd Trosolwg a Chraffu a derbyn adroddiadau craffu yn ôl y galw.
d) Bod yn atebol am ddewisiadau a pherfformiad yn y portffolio.
dd) Meddu ar drosolwg o sut y rheolir perfformiad y portffolio, ei effeithlonrwydd a'i effeithlonrwydd.

2.2 **Cyfrannu at bennu'r agenda strategol a'r rhaglen waith ar gyfer y portffolio**

a) Gweithio gyda swyddogion i lunio dogfennau polisi strategol a statudol. Sicrhau y caiff ewyllys gwleidyddol y mwyafrif ei drosglwyddo i'r Cabinet a'i weithredu ganddo.
b) Darparu cymorth wrth lunio a chyflawni rhaglen waith strategol, yn wleidyddol ac yn statudol. Cynnal ymgynghoriadau â rhanddeiliaid yn ôl y galw. Sicrhau y cedwir blaenraglen waith y portffolio'n gyfoes ac yn gywir.

2.3 **Darparu cynrychiolaeth ar gyfer y portffolio**

Bod yn ffigwr cryf, cymwys a pherswadiol i gynrychioli'r portffolio. Bod yn arweinydd mewn enw mewn cyfarfodydd â rhanddeiliaid.

2.4 **Adrodd a rhoi cyfrif**

a) Adrodd fel y bo'n briodol i'r Arweinydd, y cyngor llawn, y Cabinet, Cadeirydd priodol Trosolwg a Chraffu, cyrff rheoleiddo a'r cyfryngau.
b) Bod yn brif lefarydd gwleidyddol ar gyfer y portffolio.
c) Ymddangos gerbron pwyllgorau Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â materion yn y portffolio.

2.5 **cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd Cabinet a'i brosesau gwneud penderfyniadau**

a) Dangos diddordeb ym mhortffolios eraill a chefnogaeth ar eu cyfer;
b) Adnabod materion sy'n gyffredin i nifer o bortffolios neu sy'n faterion cydgyfrifoldeb.

2.6 **Arwain partneriaethau ac arweinyddiaeth gymunedol**

a) Rhoi arweinyddiaeth i bartneriaethau strategol lleol a phartneriaid lleol

wrth fynd ar drywydd nodau a blaenoriaethau cyffredin.

b) Trafod a threfnu mewn achosion o flaenoriaethau sy'n wahanol ac anghytuno

c) Gweithredu fel arweinydd y gymuned leol drwy ddangos gweledigaeth a rhagwelediad.

2.7 **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd**

a) Hybu a chefnogi llywodraethu da o'r cyngor a'i faterion.

b) Darparu arweinyddiaeth gymunedol a dinasyddiaeth weithredol

c) Hybu a chefnogi llywodraeth agored a thryloyw.

ch) Cefnogi perthnasoedd parchus, priodol ac effeithiol â gweithwyr y cyngor a glynu wrthynt.

d) Glynu wrth Gôd Ymddygiad yr Aelodau, Protocol Aelodau/Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus.

3 **Gwerthoedd**

3.1 **Bod yn ymroddedig i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus**:

a) Didwylledd a thryloywder;
b) Gonestrwydd ac uniondeb;
c) Goddefgarwch a pharch
ch) Cydraddoldeb a thegwch;
d) Gwerthfawrogi gwahaniaeth diwylliannol;
dd) Cynaladwyedd;
e) Arweinyddiaeth Gynhwysol.

## Manyleb Person Aelod y Cabinet

1. **Er mwyn cyflawni'i rôl fel y'i hamlinellir yn y disgrifiad rôl, mae'n ofynnol bod gan Aelod y Cabinet:**

1.1 **Arweinyddiaeth Portffolio**

a) Ddealltwriaeth o strategaethau, polisïau a gweithrediadau'r cyngor.
b) Sgiliau arweinyddiaeth.

1.2 **Cyfrannu at bennu'r agenda strategol a'r rhaglen waith ar gyfer y portffolio**

a) Y gallu i gyflwyno i eraill
b) Y gallu i arfer ymwybyddiaeth a barn strategol.
c) Gwybodaeth am faterion perthnasol a phwy i'w cynnwys wrth wneud penderfyniadau
ch) Y gallu i ddwyn perswâd ar eraill
d) Gwybodaeth am amcanion y cyngor a rhai cenedlaethol

1.3 **Darparu cynrychiolaeth ar gyfer y portffolio**

a) Sgiliau siarad cyhoeddus.
b) Sgiliau cyflwyno da.

1.4 **Adrodd fel y bo'n briodol**

Sgiliau cyfathrebu lefel uchel.

1.5 **Cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd a phenderfyniadau'r Cabinet**

a) Y gallu i herio penderfyniadau'n gadarnhaol ac awgrymu rhai amgen.
b) Yr wybodaeth, yr hyder a'r gallu i gyfrannu at drafodaeth a datrys cydfaterion a materion trawsbynciol.

1.6 **Arwain partneriaethau ac arweinyddiaeth gymunedol**

a) Sgiliau arweinyddiaeth hyblyg.
b) Sgiliau trafod a threfnu.
c) Sgiliau creadigol a meddwl ochrol; Y gallu i edrych i'r dyfodol a bod yn rhagfynegol.

1.7 **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd**

a) Dealltwriaeth o rolau swyddogion, aelodau ac asiantaethau gwahanol.
b) Parch at grwpiau ac unigolion gwahanol ac awydd i weithio gyda hwy.
c) Gwybodaeth am y Côd Ymddygiad a Phrotocol Aelodau/Swyddogion a dealltwriaeth ohonynt.
ch) Gwybodaeth am werthoedd y cyngor ac ymrwymiad iddynt.

↥

## 5 Disgrifiad Rôl Cadeirydd ac Is-gadeirydd

1 **Atebolrwydd**

Cyngor Llawn.

2 **Diben a gweithgareddau'r rôl**

2.1 **Cadeirio cyfarfodydd y cyngor**

a) Llywyddu mewn cyfarfodydd y cyngor fel y gellir cyflawni ei fusnes yn effeithlon.
b) Sicrhau bod y cyngor yn cynnal ei gyfarfodydd yn unol â Rheolau Sefydlog y cyngor.

2.2 **Cynnal a hyrwyddo cyfansoddiad y cyngor**

Sicrhau y glynir wrth y cyfansoddiad, ac, os oes angen,d dyfarnu ar y dehongliad o'r cyfansoddiad.

2.3 **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd**

a) Hybu a chefnogi llywodraethu da o'r cyngor a'i faterion.
b) Darparu arweinyddiaeth gymunedol a dinasyddiaeth weithredol
c) Hybu a chefnogi llywodraeth agored a thryloyw.
ch) Cefnogi perthnasoedd parchus, priodol ac effeithiol â gweithwyr y cyngor a glynu wrthynt.
d) Glynu wrth Gôd Ymddygiad yr Aelodau, Protocol Aelodau/Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus.

2.4 **Rhaglennu gwaith**

Paratoi a rheoli rhaglen waith flynyddol er mwyn i'r cyngor fodloni ei rwymedigaethau cyfreithiol (e.e. pennu'r gyllideb a Threth y Cyngor a phenodi).

3 **Gwerthoedd**

3.1 **Bod yn ymroddedig i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus**:

a) Didwylledd a thryloywder;
b) Gonestrwydd ac uniondeb;
c) Goddefgarwch a pharch
ch) Cydraddoldeb a thegwch;
d) Gwerthfawrogi gwahaniaeth diwylliannol;
dd) Cynaladwyedd.

3.2 **Is-gadeirydd**

a) Cyflawni dyletswyddau cadeirydd y cyngor yn ei absenoldeb.
b) Cynorthwyo Cadeirydd y Cyngor gyda dyletswyddau penodol yn ôl y galw.

## Manyleb Person Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor

1 **Er mwyn cyflawni'i rôl fel y'i hamlinellir yn y disgrifiad rôl, mae'n ofynnol bod gan Aelod y Cabinet:**

1.1 **Gweithredu fel symbol o awdurdod democrataidd y cyngor**

a) Sgiliau siarad cyhoeddus da.
b) Dealltwriaeth ddofn o rôl y Cadeirydd.

1.2 **Cadeirio cyfarfodydd y cyngor**

a) Sgiliau i gadeirio cyfarfodydd, i sicrhau y cynhelir busnes yn effeithiol a bod yr holl rai sy'n bresennol yn cyfranogi.
b) Dealltwriaeth o Reolau Sefydlog y cyngor.

1.3 **Upholding and promoting the Council's Constitution**

a) An understanding of the Council's Constitution.
b) An understanding of when to seek the advice of the Monitoring Officer on issues relating to the Constitution.

1.4 **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd**

a) Dealltwriaeth o rolau swyddogion, aelodau ac asiantaethau gwahanol.
b) Parch at grwpiau ac unigolion gwahanol ac awydd i weithio gyda hwy.
c) Gwybodaeth am y Côd Ymddygiad a Phrotocol Aelodau/Swyddogion a dealltwriaeth ohonynt.
d) Gwybodaeth am werthoedd y cyngor ac ymrwymiad iddynt.

1.5 **Rhaglennu gwaith**

Y gallu a'r ddisgyblaeth i gynllunio a rheoli rhaglenni gwaith.

↥

## 6 Disgrifiad Rôl Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Rheoleiddio

1 **Atebolrwydd**

a) I'r cyngor llawn.
b) I aelodau'r Pwyllgor Rheoleiddo.

2 **Diben a gweithgareddau'r rôl**

2.1 **Darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd**

a) Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol er mwyn hwyluso cynwysoldeb, cyfranogiad a phrosesau gwneud penderfyniadau clir.
b) Sicrhau bod yr holl gyfranogwyr a phartïon eraill â budd yn fodlon ar dryloywder y broses reoleiddio.
c) Dangos gonestrwydd ac amhleidioldeb wrth wneud penderfyniadau sy'n cytgordio â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi.
ch) Dirprwyo camau gweithredu i is-bwyllgorau fel y bo'n briodol.

2.2 **Hybu rôl y Pwyllgor Rheoleiddo a gwneud penderfyniadau lled-gyfreithiol**

a) Gweithredu fel llysgennad ar gyfer y Pwyllgor Rheoleiddio a hwyluso dealltwriaeth o'r rôl.
b) Gweithredu o fewn gofynion technegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i oruchwylio swyddogaethau'r pwyllgor yn deg ac yn gywir.
c) Sicrhau trylwyredd a gwrthrychedd yn y pwyllgor, gan dderbyn cyngor proffesiynol ac ymateb iddo wrth gynnal cyfarfodydd ac mewn achosion/ceisiadau unigol gerbron cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol.

2.3 **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd**

a) Datblygu statws ac uniondeb y pwyllgor a'i waith gwneud penderfyniadau
b) Deall rolau priodol cynghorwyr, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu ym maes cyfrifoldeb y Pwyllgor Rheoleiddio.
c) Hybu a chefnogi llywodraethu da gan y cyngor.

3 **Gwerthoedd**

3.1 **Bod yn ymroddedig i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus**:

a) Didwylledd a thryloywder;
b) Gonestrwydd ac uniondeb;
c) Goddefgarwch a pharch
ch) Cydraddoldeb a thegwch;
d) Gwerthfawrogi gwahaniaethau diwylliannol;
dd) Cynaladwyedd.

3.2 **Is-gadeirydd Pwyllgor Rheoleiddio**

a) Cyflawni dyletswyddau Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio yn ei absenoldeb.
b) Cynorthwyo Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio gyda dyletswyddau penodol yn ôl y galw

## Manyleb Person Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio

**1 Er mwyn cyflawni ei rôl fel y'i hamlinellir yn y disgrifiad rôl, mae'n ofynnol bod gan gadeirydd o'r pwyllgor rheoleiddio:**

1.1 **Darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd**

a) Y gallu i arwain cyfarfodydd i sicrhau bod ymgeiswyr yn teimlo yr ymdriniwyd â hwy'n deg ac yn llawn, hyd yn oed os cafodd eu cais ei wrthod.
b) Dealltwriaeth o rôl y cyngor a'r gallu i sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r rôl honno.
c) Sgiliau cyfathrebu.
ch) Gwybodaeth am faterion lleol.
d) Y gallu i reoli gwaith y pwyllgor.
dd) Y gallu i gefnogi cyd-aelodau'r pwyllgor fel y gallant ddatblygu sgiliau angenrheidiol.

1.2 **Hybu rôl y Pwyllgor Rheoleiddo a gwneud penderfyniadau lled-gyfreithiol**

a) Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o’r fframwaith rheoleiddio.
b) Y gallu i ysbrydoli a thanio brwdfrydedd aelodau'r pwyllgor ar gyfer gwaith y pwyllgor.
c) Uniondeb a'r gallu i roi eich barn eich hun o'r neilltu, a gweithredu'n deg.
ch) Gwybodaeth am y Cod(au) Ymddygiad a'r protocolau perthnasol a dealltwriaeth ohonynt, a'r gallu i'w hyrwyddo.

1.3 **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd**

a) Gwybodaeth am y Cod(au) Ymddygiad a phrotocolau a dealltwriaeth ohonynt.
b) Gwybodaeth am werthoedd y cyngor ac ymrwymiad iddynt

## 7 Disgrifiad o Rôl Aelod y Pwyllgor Rheoleiddio

1 **Atebolrwydd**

a) I'r cyngor llawn.
b) I Gadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio.

2 **Diben a gweithgareddau'r rôl**

2.1 **Deall natur y Pwyllgor Rheoleiddio a gwneud penderfyniadau lled-gyfreithiol**

a) Bod yn ymwybodol o natur lled-gyfreithiol proses gwneud penderfyniadau'r pwyllgor rheoleiddio.
b) Meddu ar wybodaeth dechnegol, gyfreithiol a gweithdrefnol ddigonol i gyfrannu'n deg ac yn gywir at swyddogaeth y pwyllgor.
c) Bod yn drylwyr ac yn wrthrychol wrth dderbyn cyngor proffesiynol ac ymateb iddo wrth gynnal cyfarfodydd ac mewn achosion/ceisiadau unigol gerbron cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol

2.2 **Cymryd rhan mewn cyfarfodydd ac wrth wneud penderfyniadau**

a) Cyfranogi'n effeithiol mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Rheoleiddo, gan sicrhau bod ystyriaethau lleol ac argymhellion polisi yn gytbwys er mwyn cyfrannu at wneud penderfyniadau'n effeithiol.
b) Gwneud penderfyniadau cytbwys o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, sy'n cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi.

2.3 **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd**

a) Sicrhau uniondeb proses gwneud penderfyniadau'r pwyllgor a'i rôl ei hun drwy lynu wrth y Côd(au) Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill.
b) Hybu a chefnogi llywodraethu da gan y cyngor.
c) Deall rolau priodol cynghorwyr, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu ym maes cyfrifoldeb y Pwyllgor Rheoleiddio.

3 **Gwerthoedd**

3.1 **Bod yn ymroddedig i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus**:

a) Didwylledd a thryloywder;
b) Gonestrwydd ac uniondeb;
c) Goddefgarwch a pharch
ch) Cydraddoldeb a thegwch;
d) Gwerthfawrogi gwahaniaeth diwylliannol;
e) Cynaladwyedd.

## Manyleb Person Aelod o Bwyllgor Rheoleiddio

1 Er mwyn cyflawni ei rôl fel y'i hamlinellir yn y disgrifiad rôl, mae’r canlynol yn

ofynnol er mwyn bod yn aelod effeithiol o'r pwyllgor rheoleiddio:

1.1 **Dealltwriaeth o natur y Pwyllgor Rheoleiddio a gwneud penderfyniadau lled-gyfreithiol**

a) Uniondeb a'r gallu i roi eich barn eich hun o'r neilltu, a gweithredu'n deg.
b) Gwybodaeth am y gyfraith, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer y maes rheoleiddio/lled gyfreithiol.
c) Y gallu i gynnal gwybodaeth.
ch) Gwrthrychedd a barn.

1.2 **Cymryd rhan mewn cyfarfodydd ac wrth wneud penderfyniadau**

a) Y gallu i wrando ac ystyried a pharchu barn cyfranwyr eraill.
b) Sgiliau siarad cyhoeddus da.
c) Sgiliau eiriolaeth da.

1.3 **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd**

a) Gwybodaeth am y Cod(au) Ymddygiad a phrotocolau a dealltwriaeth ohonynt.
b) Gwybodaeth am werthoedd y cyngor ac ymrwymiad iddynt.

↥

## 8 Disgrifiad o Rôl y Cadeirydd Craffu

1 **Atebolrwydd**

a) Cyngor Llawn.
b) Y cyhoedd.
c) Cyrff Rheoleiddio Allanol.

2 **Diben a gweithgareddau'r rôl**

2.1 **Providing leadership and direction**

**Darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd**

a) Rheoli'r tîm o aelodau'n hyderus ac yn effeithiol.
b) Hyrwyddo'r rôl graffu yn y cyngor a'r tu allan iddo, gan gydgysylltu'n effeithiol yn fewnol â'r cyngor ac yn allanol â phartneriaid y cyngor.
c) Datblygu rhaglen waith craffu gytbwys sy'n cynnwys craffu cyn penderfynu, datblygu ac adolygu polisi, craffu ymchwiliol a monitro perfformiad.
ch) Sicrhau bod y rhaglen yn ystyried y ffactorau perthnasol megis: rhaglenni gwaith y pwyllgor gweithredol a phwyllgorau eraill, blaenoriaethau a risgiau strategol a materion cymunedol perthnasol.
d) Dangos ymagwedd wrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth at graffu ac arwain y pwyllgor i nodi casgliadau ac argymhellion yn unol â hyn.
dd) Gwerthuso effaith a gwerth ychwanegol gweithgarwch trosolwg a chraffu

a nodi meysydd ar gyfer gwella.

e) Hybu gweithio trawsbleidiol.

f) Cynnwys a hysbysu'r is-gadeirydd yn llawn i sicrhau y gall gyflawni rôl y cadeirydd yn ôl y galw.

2.2 **Rheoli'r rhaglen waith**

a) Sicrhau bod y rhaglen waith yn cael ei chyflawni.

b) Adrodd i'r cyngor ac eraill am gynnydd yn erbyn y rhaglen waith, fel y bo'n briodol.

c) Cysylltu â swyddogion, aelodau eraill a chynrychiolwyr cymunedol i gyflenwi adnoddau ar gyfer y rhaglen waith a'i chyflwyno.

2.3 **Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol**

a) Pennu agendâu sy'n cynnwys amcanion a chanlyniadau clir ar gyfer y cyfarfod.

b) Rheoli cynnydd busnes mewn cyfarfodydd, sicrhau y bodlonir amcanion y cyfarfod, ac y glynir wrth y Côd Ymddygiad, Rheolau Sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill.

c) Sicrhau bod y gwaith paratoi angenrheidiol wedi'i wneud ymlaen llaw.

ch) Sicrhau bod gan yr holl gyfranogwyr gyfle i gyfrannu'n briodol.

2.4 **Arweinyddiaeth Gymunedol**

a) Gweithredu fel canolbwynt rhwng y cyngor, y gymuned a chyrff allanol mewn perthynas â'r swyddogaeth graffu.

b) Datblygu dealltwriaeth o'r swyddogaeth graffu yn y gymuned a pherchnogaeth ohoni.

c) Nodi materion cymunedol perthnasol i graffu arnynt.

ch) Cynnwys rhanddeiliaid allanol, er enghraifft, ddefnyddwyr gwasanaeth, tystion arbenigol a phartneriaid, yn llawn mewn gweithgarwch craffu.

2.5 **Cynnwys a datblygu aelodau'r bwrdd/pwyllgor**

a) Annog perfformiad uchel gan yr holl aelodau mewn grwpiau pwyllgor a thasg a gorffen.

b) Asesu perfformiad unigol ac ar y cyd mewn grwpiau tasg a gorffen a hwyluso datblygiad priodol.

3 **Gwerthoedd**

3.1 **Bod yn ymroddedig i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus**:

a) Didwylledd a thryloywder;

b) Gonestrwydd ac uniondeb;

c) Goddefgarwch a pharch

ch) Cydraddoldeb a thegwch;

d) Gwerthfawrogi gwahaniaeth diwylliannol;

dd) Cynaladwyedd

## Manyleb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd Craffu

1 **Er mwyn cyflawni ei rôl fel y'i hamlinellir yn y disgrifiad rôl, mae'n ofynnol bod Cadeirydd Craffu yn:**

1.1 **Darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd**

a) Deall rôl a swyddogaethau'r cyngor.
b) Deall rôl y panel craffu, y cylch gorchwyl ar gyfer y pwyllgor/panel, rôl y Cadeirydd ac agweddau eraill ar y trefniadau democrataidd.
c) Deall swyddogaethau cefnogi aelodau.
ch) Deall blaenoriaethau a risgiau'r cyngor.
d) Gallu datblygu rhaglenni gwaith.
dd) Deall materion cymunedol.
e) Meddu ar wrthrychedd.
f) Gallu trafod ac adeiladu consensws
ff) Gallu meithrin perthnasoedd adeiladol a 'chyfaill beirniadol' gyda'r Weithrediaeth.

1.2 **Rheoli'r rhaglen waith**

a) Gallu rheoli prosiectau ac adnoddau
b) Gallu rheoli pobl
c) Gallu blaenoriaethu
ch) Gallu adrodd am gynnydd i grwpiau gwahanol mewn arddulliau gwahanol

1.3 **Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol**

a) Deall a defnyddio protocolau cyfarfodydd, côd ymddygiad, rheolau sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill.
b) Gallu cadeirio cyfarfodydd yn effeithiol, rheoli'r agenda a bwrw ymlaen â'r busnes.
c) Gallu hwyluso trafodaethau effeithiol.
ch) Gallu gwrando a holi'n effeithiol.

1.4 **Arweinyddiaeth Gymunedol**

a) Deall rôl Arwain y Gymuned.
b) Meddu ar wybodaeth am faterion a disgwyliadau lleol.
c) Gallu gweithio'n effeithiol gyda holl aelodau'r gymuned a datblygu dealltwriaeth o drosolwg a chraffu a pherchnogaeth ohonynt.
ch) Meddu ar wybodaeth am yr unigolion a'r sefydliadau yn y gymuned yn enwedig y rheiny sy'n cael eu heithrio'n draddodiadol.

1.5 **Cynnwys a datblygu aelodau pwyllgorau**

a) Deall rolau a sgiliau'r Pwyllgor Craffu a'i unigolion.
b) Gallu cefnogi aelodau a'r pwyllgor wrth asesu eu perfformiad.
c) Gallu nodi unrhyw hyfforddiant ac anghenion datblygu a chaffael cyfleoedd dysgu a datblygiad.

↥

# 9 Disgrifiad o Rôl yr Is-gadeirydd Craffu

1 **Atebolrwydd**

a) Cyngor Llawn.
b) Y cyhoedd.
c) Cyrff Rheoleiddio Allanol.

2 **Diben a gweithgareddau'r rôl**

2.1 **Cefnogi rôl arweinyddiaeth cadeirydd y panel craffu**

a) Cefnogi'r cadeirydd i reoli'r tîm o aelodau'n hyderus ac yn effeithiol.
b) Cefnogi'r cadeirydd yn uniongyrchol i gynllunio a rheoli agendâu, rhag-gyfarfodydd, prif gyfarfodydd ac ôl-gyfarfodydd.
c) Gweithio gyda'r cadeirydd i hyrwyddo'r rôl graffu yn y cyngor a'r tu allan iddo, gan gysylltu'n effeithiol yn fewnol yn y cyngor ac yn allanol gyda phartneriaid y cyngor.
ch) Cynghori'r Cadeirydd ar ddatblygu rhaglen waith gytbwys sy'n ystyried yr holl ffactorau perthnasol.
d) Dangos ymagwedd wrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth at drosolwg a chraffu a chyfrannu at nodi casgliadau ac argymhellion yn unol â hyn.
dd) Cefnogi'r gwaith i werthuso effaith gweithgarwch trosolwg a chraffu a'i werth ychwanegol a nodi meysydd ar gyfer gwella.
e) Hybu gweithio trawsbleidiol.
f) Cynnal lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r holl faterion sy'n berthnasol i'r bwrdd er mwyn gallu cyflawni gwaith y cadeirydd yn ei absenoldeb.

2.2 **Cyflawni rôl y Cadeirydd pan fydd y cadeirydd yn absennol**

Mae hyn yn cynnwys:

a) Rheoli'r rhaglen waith, adrodd i'r Cabinet a'r cyngor a chysylltu â rhanddeiliaid perthnasol.
b) Rheoli cyfarfodydd gan gynnwys pennu agendâu, paratoi a rheoli busnes yn ystod cyfarfodydd.
c) Arweinyddiaeth Gymunedol megis cysylltu â'r gymuned a chyrff allanol, nodi materion cymunedol perthnasol a chynnwys rhanddeiliaid allanol.
ch) Cefnogi cyfranogaeth a datblygiad aelodau'r bwrdd/pwyllgor

2.3 **Arwain gweithgareddau penodol fel sy'n ofynnol gan y pwyllgor**

Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

a) Arwain adolygiad neu ymchwiliad penodol.
b) Cadeirio grwpiau tasg a gorffen.
c) Adrodd i'r bwrdd am ganlyniadau gweithgareddau

3 **Gwerthoedd**

3.1 **Bod yn ymroddedig i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus**:

a) Didwylledd a thryloywder;

b) Gonestrwydd ac uniondeb;
c) Goddefgarwch a pharch
ch) Cydraddoldeb a thegwch;
d) Gwerthfawrogi gwahaniaeth diwylliannol;
dd) Cynaladwyedd

## Manyleb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd Craffu

1 **Er mwyn cyflawni ei rôl fel y'i hamlinellir yn y disgrifiad rôl, mae'n ofynnol bod Cadeirydd Craffu yn:**

1.1 **Darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd**

a) Deall rôl a swyddogaethau'r cyngor.
b) Deall rôl y panel craffu, y cylch gorchwyl ar gyfer y pwyllgor/panel, rôl y Cadeirydd ac agweddau eraill ar y trefniadau democrataidd.
c) Deall swyddogaethau cefnogi aelodau.
ch) Deall blaenoriaethau a risgiau'r cyngor.
d) Gallu datblygu rhaglenni gwaith.
dd) Deall materion cymunedol.
e) Meddu ar wrthrychedd.
f) Gallu trafod ac adeiladu consensws
ff) Gallu meithrin perthnasoedd adeiladol a 'chyfaill beirniadol' gyda'r Weithrediaeth.

1.2 **Rheoli'r rhaglen waith**

a) Gallu rheoli prosiectau ac adnoddau
b) Gallu rheoli pobl
c) Gallu blaenoriaethu
ch) Gallu adrodd am gynnydd i grwpiau gwahanol mewn arddulliau gwahanol

1.3 **Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol**

a) Deall a defnyddio protocolau cyfarfodydd, côd ymddygiad, rheolau sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill.
b) Gallu cadeirio cyfarfodydd yn effeithiol, rheoli'r agenda a bwrw ymlaen â'r busnes.
c) Gallu hwyluso trafodaethau effeithiol.
ch) Gallu gwrando a holi'n effeithiol.

1.4 **Arweinyddiaeth Gymunedol**

a) Deall rôl Arwain y Gymuned.
b) Meddu ar wybodaeth am faterion a disgwyliadau lleol.
c) Gallu gweithio'n effeithiol gyda holl aelodau'r gymuned a datblygu dealltwriaeth o drosolwg a chraffu a pherchnogaeth ohonynt.
ch) Meddu ar wybodaeth am yr unigolion a'r sefydliadau yn y gymuned yn enwedig y rheiny sy'n cael eu heithrio'n draddodiadol.

1.5 **Cynnwys a datblygu aelodau pwyllgorau a'u datblygu**

a) Deall rolau a sgiliau'r Pwyllgor Craffu a'i unigolion.
b) Gallu cefnogi aelodau a'r pwyllgor wrth asesu eu perfformiad.

c) Gallu nodi unrhyw hyfforddiant ac anghenion datblygu a chaffael cyfleoedd dysgu a datblygiad.

↥

## 10 Disgrifiad o Rôl y Cynullydd Craffu

1 Bydd y Cynullydd Craffu'n gyfrifol am bortffolio o bynciau craffu y bydd yn eu rheoli a'u cyflwyno. Ni chaiff y pynciau hyn, a ddyrennir gan Bwyllgor y Rhaglen Graffu, eu cyfyngu i un testun neu adran. Caiff y gwaith craffu a arweinir gan y cynullyddion hyn drwy grwpiau/baneli tasg a gorffen anffurfiol a bydd cynullyddion yn cadeirio cyfarfodydd y grwpiau hyn. Bydd cynullyddion yn atebol i Bwyllgor y Rhaglen Graffu.

2 **Darparu arweinyddiaeth**

a) Rheoli'r pynciau y maent yn gyfrifol amdanynt yn hyderus ac yn effeithiol.
b) Hybu'r rôl graffu yn y cyngor a'r tu allan iddo, gan gydgysylltu'n effeithiol yn fewnol â'r cyngor ac yn allanol â phartneriaid y cyngor.
c) Cyfrannu at ddatblygu rhaglen waith craffu gytbwys.
ch) Sicrhau bod y rhaglen yn ystyried y ffactorau perthnasol megis: rhaglenni gwaith y pwyllgor gweithredol a phwyllgorau eraill, blaenoriaethau a risgiau strategol a materion cymunedol perthnasol.
d) Dangos ymagwedd wrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth at graffu a hwyluso nodi casgliadau ac argymhellion yn unol â hyn.
dd) Gwerthuso effaith a gwerth ychwanegol gweithgarwch craffu a nodi meysydd ar gyfer gwella.
e) Hybu gweithio trawsbleidiol.
a) Cynnwys a hysbysu dirprwyon perthnasol yn llawn i sicrhau y gallant gyflawni rôl y cynullydd yn ôl y galw.

3 **Rheoli'r rhaglen waith**

a) Sicrhau bod y rhaglen waith yn cael ei chyflawni.
b) Adrodd i'r cyngor ac eraill am gynnydd yn erbyn y rhaglen waith, fel y bo'n briodol.
a) Cysylltu â swyddogion, aelodau eraill a chynrychiolwyr cymunedol i gyflenwi adnoddau ar gyfer y rhaglen waith a'i chyflwyno.

4 **Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol**

a) Pennu agendâu sy'n cynnwys amcanion a chanlyniadau clir ar gyfer cyfarfodydd
b) Rheoli cynnydd busnes mewn cyfarfodydd, gan sicrhau y bodlonir amcanion y cyfarfod.
c) Sicrhau bod y gwaith paratoi angenrheidiol wedi'i wneud ymlaen llaw.
ch) Sicrhau bod gan yr holl gyfranogwyr gyfle i gyfrannu'n briodol.

5 **Arweinyddiaeth Gymunedol**

a) Lle bydd angen, gweithredu fel ffocws ar gyfer cydgysylltiad rhwng y cyngor, y gymuned a chyrff allanol o ran y swyddogaeth graffu.
b) Datblygu dealltwriaeth o'r swyddogaeth graffu yn y gymuned a

pherchnogaeth ohoni.

c) Cynnwys rhanddeiliaid allanol, er enghraifft, ddefnyddwyr gwasanaeth, tystion arbenigol a phartneriaid, yn llawn mewn gweithgarwch craffu.

ch) Cefnogi cyfranogaeth a datblygiad aelodau craffu

d) Annog perfformiad uchel gan yr holl gynghorwyr craffu mewn grwpiau tasg a gorffen.

dd) Asesu perfformiad unigol ac ar y cyd mewn grwpiau tasg a gorffen a hwyluso datblygiad priodol.

6 **Gwerthoedd**

6.1 **Bod yn ymroddedig i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus**:

a) Didwylledd a thryloywder;
b) Gonestrwydd ac uniondeb;
c) Goddefgarwch a pharch
ch) Cydraddoldeb a thegwch;
d) Gwerthfawrogi gwahaniaeth diwylliannol;
dd) Cynaladwyedd.

↥

## 11 Disgrifiad o Rôl Aelod Craffu

1 **Atebolrwydd**

a) Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu.
b) Cyngor Llawn.
c) Y cyhoedd.
ch) Cyrff Rheoleiddio Allanol

2 **Diben a gweithgareddau'r rôl**

Cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r panel craffu, cyflwyno rhaglenni gwaith ac unrhyw grwpiau tasg a gorffen cysylltiedig.

3 **Adolygu a datblygu polisïau**

a) Cynorthwyo wrth greu, datblygu, gwella a mireinio polisïau'r cyngor.
b) Herio polisïau ar sail dystiolaeth gadarn, er enghraifft, yn erbyn deddfwriaeth neu flaenoriaeth wleidyddol leol.
c) Asesu effaith polisïau presennol.

4 **Monitro perfformiad a chyflwyno gwasanaethau**

a) Monitro perfformiad darparwyr mewnol ac allanol yn erbyn safonau a thargedau.
b) Cyfrannu at nodi a lliniaru risgiau.
c) Ymchwilio i achosion perfformiad gwael a mynd i'r afael â hwy.

5 **Hybu gwaith craffu**

a) Hybu'r rôl graffu yn y cyngor a'r tu allan iddo, gan ddatblygu perthnasoedd mewnol ac allanol effeithiol.
b) Dangos ymagwedd wrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth at graffu.
a) Ychwanegu gwerth at waith gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau yr awdurdod trwy graffu effeithiol.

6 **Arweinyddiaeth Gymunedol**

a) Defnyddio trosolwg a chraffu fel modd o fynd i'r afael â materion cymunedol a chynnwys y cyhoedd.
b) Annog rhanddeiliaid i gymryd rhan yng ngwaith yr awdurdod.
c) Datblygu atebion polisi sy'n ddichonadwy ac yn dderbyniol yn lleol.
a) ch) Datblygu deialog ynghylch blaenoriaethau, amcanion a pherfformiad ymhlith cymunedau a rhanddeiliaid.

7 **Cyfranogi mewn cyfarfodydd**

a) Gwneud paratoadau digonol a phriodol ar gyfer cyfarfodydd drwy ymchwil a sesiynau briffio.
a) Cyfranogi mewn ffordd ragweithiol, hyddysg ac effeithiol, gan ystyried y Côd Ymddygiad, Rheolau Sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill.

8 **Gwerthoedd**

8.1 **Bod yn ymroddedig i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus**:

a) Didwylledd a thryloywder;
b) Gonestrwydd ac uniondeb;
c) Goddefgarwch a pharch
ch) Cydraddoldeb a thegwch;
d) Gwerthfawrogi gwahaniaeth diwylliannol;
dd) Cynaladwyedd

## Manyleb Person Aelod Craffu

1 Er mwyn cyflawni ei rôl fel y'i hamlinellir yn y disgrifiad rôl, mae'n ofynnol i aelod craffu effeithiol:

**a. Gymryd rhan yn llawn yng ngweithgareddau'r swyddogaeth trosolwg a chraffu**

a) Deall yn llawn rôl y cylch gwaith trosolwg a chraffu, a chylch gorchwyl ei bwyllgor/panel ei hun ac eraill.
b) Deall swyddogaethau cefnogi aelodau.
a) Gweithio dan arweiniad y cadeirydd.

1.2 **Adolygu a datblygu polisïau**

a) Meddu ar wybodaeth am bolisïau presennol a'r gallu i'w gwerthuso.
b) Deall arfer gorau.
c) Deall y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi cenedlaethol a lleol.

1.3 **Monitro perfformiad a chyflwyno gwasanaethau**

a) Deall Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a'r trefniadau rheoli risgiau cysylltiedig.
b) Deall egwyddorion ac arferion rheoli perfformiad.
c) Deall trefniadau rheoli perfformiad y cyngor.
ch) Gallu dadansoddi data a herio perfformiad.

1.4 **Hybu gwaith craffu**

a) Gallu trafod ac adeiladu consensws.
b) Gallu gweithredu'n wrthrychol ac ar sail tystiolaeth.

1.5 **Arweinyddiaeth Gymunedol**

3.11 Deall rôl Arwain y Gymuned.
3.12 Meddu ar wybodaeth am faterion a disgwyliadau lleol.
3.13 Gallu gweithio'n effeithiol gyda holl aelodau'r gymuned a datblygu dealltwriaeth o drosolwg a chraffu a pherchnogaeth ohonynt.
ch) Meddu ar wybodaeth yr unigolion a'r sefydliadau yn y gymuned yn enwedig y rheiny sy'n cael eu heithrio'n draddodiadol.

1.6 **Cyfranogi mewn cyfarfodydd**

a) Gallu dehongli gwybodaeth a data o amrywiaeth o ffynonellau.
b) Deall a defnyddio protocolau cyfarfodydd, côd ymddygiad, rheolau sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill.
c) Gallu cymryd rhan mewn cyfarfodydd gan gynnwys gwrando, holi a siarad yn effeithiol.

↥

## 12 Disgrifiad Rôl Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Brif Wrthblaid

1.1 Cyflawni’r tasgau allweddol sy’n berthnasol i bob aelod etholedig o'r Cyngor.

1.2 Arwain yr wrthblaid neu'r grŵp mwyaf

1.3 Gweithredu fel Cadeirydd y Panel gan olygu y bydd rhaid gweithio gyda Chadeirydd y Cyngor.

1.4 Defnyddio aelodau'r grŵp mwyafrifol i gynyddu ymwybyddiaeth o safbwyntiau gwahanol ar faterion allweddol sydd dan ystyriaeth.

2 **Dirprwy Arweinydd y Brif Wrthblaid**

2.1 Cyflawni dyletswyddau Arweinydd y Brif Wrthblaid yn ei absenoldeb.

2.2 Cynorthwyo Arweinydd y Brif Wrthblaid gyda dyletswyddau penodol yn ôl y galw.

↥

## 13 Disgrifiad Rôl Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Gwrthbleidiau Eraill

1.1 Cyflawni'r tasgau allweddol sy'n berthnasol i bob aelod etholedig o'r Cyngor.

1.2 Arwain yr wrthblaid neu'r ail grŵp mwyaf

1.3 Gweithredu fel Is-gadeirydd y Panel gan olygu y bydd rhaid gweithio gyda Chadeirydd y Cyngor.

1.4 Defnyddio aelodau'r grŵp mwyafrifol i gynyddu ymwybyddiaeth o safbwyntiau gwahanol ar faterion allweddol sydd dan ystyriaeth.

2 **Dirprwy Arweinydd Gwrthbleidiau Eraill**

2.1 Cyflawni dyletswyddau Arweinydd yr Wrthblaid Leiaf yn ei absenoldeb.

2.2 Cynorthwyo Arweinydd yr Wrthblaid Leiaf gyda dyletswyddau penodol yn ôl y galw.

↥

## 14 Aelod Hyrwyddo - Disgrifiad Rôl Generig

1 **Atebolrwydd**

a) I'r cyngor.

2 **Diben a gweithgareddau'r rôl**

2.1 **Yn y cyngor**

a) Hybu'r budd sy'n cael ei hyrwyddo ym mlaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth y cyngor;
b) Hybu anghenion y grwpiau o gleientiaid a gynrychiolir yn y budd i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn y cyngor;
c) Gweithio gyda'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i sefydlu strategaethau/ polisïau/cynlluniau gwaith sy'n gysylltiedig â'r budd hwnnw;
ch) Cynnal ymwybyddiaeth o'r holl faterion sy'n gysylltiedig â'r budd;
d) Cyfrannu at arfer da a gwella'n barhaus wasanaethau a swyddogaethau sy'n gysylltiedig a'r budd;
dd) Cynnwys cynghorwyr yn yr holl faterion sy'n gysylltiedig â'r budd megis mynd i gyfarfodydd Trosolwg a Chraffu/Cabinet/Cyngor etc;
e) Cynyddu ymwybyddiaeth o ddatblygiad yr holl gynghorwyr a swyddogion mewn perthynas â'r budd, a chymryd rôl arweiniol yn hyn o beth.

2.2 **Yn y Gymuned**

a) Cynyddu proffil y budd o fewn y gymuned;
b) Cynnwys dinasyddion a grwpiau cymunedol mewn materion sy'n gysylltiedig â'r budd;
c) Arwain a chefnogi mentrau lleol sy'n gysylltiedig â'r budd.

3 **Gwerthoedd**

3.1 Bod yn ymroddedig i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

a) Didwylledd a thryloywder;
b) Gonestrwydd ac uniondeb;
c) Goddefgarwch a pharch
ch) Cydraddoldeb a thegwch;
d) Gwerthfawrogi gwahaniaeth diwylliannol;
dd) Cynaladwyedd;
e) Arweinyddiaeth Gynhwysol.

↥

# 15 Hyrwyddwyr Cydraddoldeb yr Aelodau - Disgrifiad Rôl

1 Yn ogystal â'r disgrifiad generig o Rôl yr Aelod Hyrwyddo, bydd yr Aelodau Hyrwyddo Cydraddoldeb yn glynu wrth y canlynol:

2 Yn seiliedig ar y rôl bresennol a rhannau o Arweiniad ar Rolau Aelodau CLILC, dyma fyddai rôl graidd yr Aelod Hyrwyddo Cydraddoldeb etholedig yn Ninas a Sir Abertawe:

a) Bod yn gyfarwydd â deddfwriaeth a materion cydraddoldeb ac amrywiaeth;
b) Bod yn gyfarwydd ag anghenion a blaenoriaethau pobl â nodweddion gwarchodedig a grwpiau a gynrychiolir;
c) Cynyddu'r ymwybyddiaeth o safbwyntiau ac anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig a grwpiau a gynrychiolir ym musnes y cyngor;
ch) Cefnogi sut mae'r cyngor yn cynnwys a chyfathrebu â phobl â nodweddion gwarchodedig a grwpiau a gynrychiolir;
d) Annog cyfranogiad gan bobl â nodweddion gwarchodedig a grwpiau a gynrychiolir yng ngwaith y cyngor gan gynnwys cynllunio a gwerthuso'r gwasanaethau a ddarperir ganddo;
dd) Sefydlu dulliau ymgysylltu'n effeithiol â phobl â nodweddion gwarchodedig a grwpiau a gynrychiolir a chael eich cydnabod yn gyswllt rhyngddynt ac aelodau, swyddogion a Phwyllgor Cydraddoldeb yr awdurdod;
e) Hyrwyddo arfer da ar draws y cyngor gan ddysgu gan sefydliadau eraill a chysylltu â sefydliadau partner;
f) Adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a grwpiau a gynrychiolir.

3 Y nod fyddai rhoi'r rôl ar waith dros gyfnod o amser a'i haddasu ar y cyd â datblygu rôl y Pwyllgor Cydraddoldeb. Gallai rôl Aelod Hyrwyddo gwmpasu mwy nag un o'r nodweddion gwarchodedig a'r grwpiau a gynrychiolir.

↥

# 16 Disgrifiad Rôl Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

1 **Atebolrwydd**

a) I'r cyngor llawn

2 **Diben a Gweithgareddau'r Rôl**

2.1 **Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad**

a) Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol er mwyn hwyluso cyfranogaeth, cyfranogiad a phrosesau gwneud penderfyniadau clir.
b) Arwain y pwyllgor yn ei rôl wrth:

i) Ddynodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd;
ii) Parhau i adolygu'r ddarpariaeth staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, gan sicrhau bod y rhain yn ddigonol;
iii) Llunio adroddiadau blynyddol i'r cyngor llawn mewn perthynas â'r uchod;
iv) Penodi Is-bwyllgorau a Chadeiryddion Is-bwyllgorau i gyflawni swyddogaethau a ddirprwyir gan y pwyllgor;
v) Ystyried adroddiadau sy'n cael eu paratoi gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd;
vi) Datblygu strategaeth cefnogi a datblygu cynghorwyr yr awdurdod;
vii) Sicrhau bod gan gynghorwyr fynediad i lefel resymol o hyfforddiant a datblygiad fel a ddisgrifir yn strategaeth datblygu aelodau'r awdurdod a Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau;
viii) Sicrhau bod y gyllideb ar gyfer datblygu cynghorwyr yn ddigonol;
ix) Sicrhau bod gan gynghorwyr fynediad i ddatblygiad personol
x) Cynllunio ac Adolygiadau Datblygiad Personol blynyddol;
xi) Gweithio gyda'r Aelod Hyrwyddo Cefnogi a Datblygu Cynghorwyr lle y bo'n berthnasol i hyrwyddo rôl cynghorwyr a'r gefnogaeth a'r datblygiad angenrheidiol.

c) Dangos gonestrwydd ac amhleidioldeb wrth wneud penderfyniadau sy'n cytgordio â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi.

2.2 **Hybu rôl Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd**

a) Gweithredu fel llysgennad ar gyfer Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a hwyluso dealltwriaeth o'r rôl.
b) Gweithredu o fewn gofynion technegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i oruchwylio swyddogaethau'r pwyllgor yn deg ac yn gywir.
c) Sicrhau trylwyredd a gwrthrychedd yn y pwyllgor, gan dderbyn cyngor proffesiynol ac ymateb iddo wrth gynnal cyfarfodydd

2.3 **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd**

a) Datblygu statws ac uniondeb y pwyllgor a'i waith gwneud penderfyniadau
b) Deall rolau priodol cynghorwyr, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu ym maes cyfrifoldeb Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.
c) Hybu a chefnogi llywodraethu da gan y cyngor.

3 **Gwerthoedd**

3.1 Bod yn ymroddedig i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

a) Didwylledd a thryloywder;
b) Gonestrwydd ac uniondeb;
c) Goddefgarwch a pharch
ch) Cydraddoldeb a thegwch;
d) Gwerthfawrogi gwahaniaethau diwylliannol;
dd) Cynaladwyedd.

↥

## 17 Disgrifiad o Rôl Aelod o Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

1 **Atebolrwydd**

a) I'r cyngor llawn:
b) I Gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

2 **Diben a gweithgareddau'r rôl**

2.1 **Deall natur Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd:**

2.2 Bod yn ymwybodol o rôl y pwyllgor, ac ymgymryd â honno'n effeithiol wrth**:**

a) Bod yn ymwybodol o rôl y pwyllgor, ac ymgymryd â honno'n effeithiol wrth:

i) Ddynodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd;
ii) Parhau i adolygu'r ddarpariaeth staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, gan sicrhau bod y rhain yn ddigonol;
iii) Llunio adroddiadau blynyddol i'r cyngor llawn mewn perthynas â'r uchod;
iv) Penodi Is-bwyllgorau a Chadeiryddion Is-bwyllgorau i gyflawni swyddogaethau a ddirprwyir gan y pwyllgor;
v) Ystyried adroddiadau sy'n cael eu paratoi gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd;
vi) Datblygu strategaeth cefnogi a datblygu cynghorwyr yr awdurdod;
vii) Sicrhau bod gan gynghorwyr fynediad i lefel resymol o hyfforddiant a datblygiad fel a ddisgrifir yn strategaeth datblygu aelodau'r awdurdod a Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau;
viii) Sicrhau bod y gyllideb ar gyfer datblygu cynghorwyr yn ddigonol;
ix) Sicrhau bod gan gynghorwyr fynediad i gynllunio datblygiad personol ac Adolygiadau Datblygu Personol blynyddol;
x) Gweithio gyda'r Aelod Hyrwyddo Cefnogi a Datblygu Cynghorwyr lle

y bo'n berthnasol i hyrwyddo rôl cynghorwyr a'r gefnogaeth a'r datblygiad angenrheidiol.

b) Meddu ar wybodaeth dechnegol, gyfreithiol a gweithdrefnol ddigonol i gyfrannu'n deg ac yn gywir at swyddogaeth y pwyllgor.
c) Bod yn drylwyr ac yn wrthrychol wrth dderbyn cyngor proffesiynol ac ymateb iddo wrth gynnal cyfarfodydd ac ymdrin â materion gerbron y pwyllgor.

2.2 **Cymryd rhan mewn cyfarfodydd ac wrth wneud penderfyniadau**

a) Cyfranogi'n effeithiol mewn cyfarfodydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.
b) Gwneud penderfyniadau cytbwys o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, sy'n cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi.

2.3 **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd**

a) Sicrhau uniondeb proses gwneud penderfyniadau'r pwyllgor a'i rôl ei hun drwy lynu wrth y Côd(au) Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill.
b) Hybu a chefnogi llywodraethu da gan y cyngor.
c) Deall rolau priodol cynghorwyr, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu ym maes cyfrifoldeb Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

3 **Gwerthoedd**

3.1 Bod yn ymroddedig i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

a) Didwylledd a thryloywder;
b) Gonestrwydd ac uniondeb;
c) Goddefgarwch a pharch
ch) Cydraddoldeb a thegwch;
d) Gwerthfawrogi gwahaniaethau diwylliannol;
dd) Cynal.

↥

## 18 Disgrifiad Rôl Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

1 **Atebolrwydd**

a) I'r cyngor llawn.

2 **Diben a Gweithgareddau'r Rôl**

2.1 **Darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd**

a) Dangos annibyniaeth, gonestrwydd ac amhleidioldeb wrth wneud penderfyniadau sy'n cytgordio â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi;
b) Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol er mwyn hwyluso

cyfranogaeth, cyfranogiad a phrosesau gwneud penderfyniadau clir;

c) Cytuno ar yr agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio;

ch) Arwain y pwyllgor yn ei rôl wrth:

i) Adolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt;
ii) Llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod;
iii) Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risgiau, rheoli mewnol a llywodraethu corfforaethol yr awdurdod;
iv) Llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny;
v) Goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod;
vi) Adolygu datganiadau ariannol a baratoir gan yr awdurdod a'u cymeradwyo pan ddirprwyir pwerau;
vii) Datblygu perthnasoedd ag archwilwyr mewnol ac allanol a Swyddog Monitro'r awdurdod;
viii) Datblygu blaenraglen waith a luniwyd i gyflawni swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio;
ix) Adolygu a hunanasesu perfformiad y pwyllgor a'i aelodau.

**a. Hybu rôl y Pwyllgor Archwilio**

a) Gweithredu fel llysgennad ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a hwyluso dealltwriaeth o'r rôl.

b) Gweithredu o fewn gofynion technegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i oruchwylio swyddogaethau'r pwyllgor yn deg ac yn gywir.

a) Sicrhau trylwyredd a gwrthrychedd yn y pwyllgor, gan dderbyn cyngor proffesiynol ac ymateb iddo wrth gynnal cyfarfodydd ac yn y broses archwilio.

2.3 **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd**

a) Deall y risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â llywodraethu corfforaethol; bod yn fodlon bod datganiadau sicrwydd yr awdurdod, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn adlewyrchu'r amgylchedd risg ac unrhyw gamau gweithredu eraill sy'n angenrheidiol er mwyn ei wella.

b) Datblygu statws ac uniondeb y pwyllgor a'i waith gwneud penderfyniadau

c) Deall rolau priodol cynghorwyr, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu ym maes cyfrifoldeb y Pwyllgor Archwilio.

ch) Hybu a chefnogi llywodraethu da gan y cyngor.

3 **Gwerthoedd**

3.1 Bod yn ymroddedig i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

a) Didwylledd a thryloywder;
b) Gonestrwydd ac uniondeb;
c) Goddefgarwch a pharch
ch) Cydraddoldeb a thegwch;
d) Gwerthfawrogi gwahaniaethau diwylliannol;
dd) Cynaladwyedd.

↥

## 19 Disgrifiad o Rôl Aelod y Pwyllgor Archwilio

1 **Atebolrwydd**

a) I'r cyngor llawn.
b) I Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

2 **Diben a gweithgareddau'r rôl**

2.1 **Deall rôl y Pwyllgor Archwilio ac ymgymryd â'i swyddogaethau:**

a) Adolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt;
b) Llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod;
c) Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risgiau, rheoli mewnol a llywodraethu corfforaethol yr awdurdod,
ch) Llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny;
d) Goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod;
dd) Adolygu adroddiadau ariannol a baratoir gan yr awdurdod;
e) Meddu ar wybodaeth dechnegol, gyfreithiol a gweithdrefnol ddigonol i gyfrannu'n deg ac yn gywir at swyddogaeth y pwyllgor.
f) Bod yn drylwyr ac yn wrthrychol wrth dderbyn cyngor proffesiynol ac ymateb iddo wrth gynnal cyfarfodydd ac ymdrin â materion gerbron y pwyllgor.

2.2 **Cymryd rhan mewn cyfarfodydd ac wrth wneud penderfyniadau**

a) Cyfranogi'n effeithiol mewn cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio; holi a cheisio eglurder ar faterion sydd yng nghylch gwaith y pwyllgor.
b) Gwneud penderfyniadau cytbwys o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, sy'n cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi.

2.3 **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd**

a) Deall y risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â llywodraethu corfforaethol; bod yn fodlon bod datganiadau sicrwydd yr awdurdod, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn adlewyrchu'r amgylchedd risg ac unrhyw gamau gweithredu eraill sy'n angenrheidiol er mwyn ei wella.
b) Sicrhau uniondeb proses gwneud penderfyniadau'r pwyllgor a'i rôl ei hun drwy lynu wrth y Côd(au) Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill.
c) Hybu a chefnogi llywodraethu da gan y cyngor.
ch) Deall rolau priodol cynghorwyr, aelodau cyfetholedig, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu ym maes cyfrifoldeb y Pwyllgor Archwilio.

3. **Gwerthoedd**

3.1 Bod yn ymroddedig i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

a) Didwylledd a thryloywder;
b) Gonestrwydd ac uniondeb;

c) Goddefgarwch a pharch
ch) Cydraddoldeb a thegwch;
d) Gwerthfawrogi gwahaniaethau diwylliannol;
e) Cynaladwyedd.

↥

## 20 Disgrifiad Rôl Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

1 **Atebolrwydd**

I'r cyngor llawn.

2 **Diben a Gweithgareddau'r Rôl**

2.1. **Darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd**

a) Gweithredu o fewn gofynion technegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i oruchwylio swyddogaethau'r pwyllgor yn deg ac yn gywir;
b) Sicrhau trylwyredd a gwrthrychedd yn y pwyllgor, gan dderbyn cyngor proffesiynol ar y Côd Ymddygiad ac ymateb iddo;
c) Dangos annibyniaeth, gonestrwydd ac amhleidioldeb wrth wneud penderfyniadau sy'n cytgordio â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi;
ch) Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol er mwyn hwyluso cyfranogaeth, cyfranogiad a phrosesau gwneud penderfyniadau clir;
d) Arwain y pwyllgor yn ei rôl wrth:

i) Hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig;
ii) Cynorthwyo'r cynghorwyr ac aelodau etholedig i lynu wrth Côd Ymddygiad yr Aelodau;
iii) Cynghori'r cyngor ar fabwysiadu fersiwn o Gôd Ymddygiad yr Aelodau;
iv) Monitro gweithredu Côd Ymddygiad yr Aelodau;
v) Cynghori a hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion sy'n ymwneud â Chôd Ymddygiad yr Aelodau neu drefnu hyfforddiant ar eu cyfer;
vi) Rhoi goddefebau i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig;
vii) Ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro am unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
viii) Arfer y swyddogaethau hyn mewn perthynas â Chynghorau Tref/Cymuned a'u haelodau.

3 **Gwerthoedd**

Bod yn ymroddedig i'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus, a'u harddangos:

a) Didwylledd a thryloywder;
b) Gonestrwydd ac uniondeb;

c) Goddefgarwch a pharch
ch) Cydraddoldeb a thegwch;
d) Gwerthfawrogi gwahaniaethau diwylliannol;
dd) Cynaladwyedd.

↥

## 21 Disgrifiad o Rôl Aelod y Pwyllgor Safonau

1 **Atebolrwydd**

a) I'r cyngor llawn:
b) I Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

2 **Diben a gweithgareddau'r rôl**

2.1 **Deall natur y Pwyllgor Safonau a chyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol drwy:**

a) Hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig;
b) Cynorthwyo'r cynghorwyr ac aelodau etholedig i lynu wrth Côd Ymddygiad yr Aelodau;
c) Cynghori'r cyngor ar fabwysiadu fersiwn o Gôd Ymddygiad yr Aelodau;
ch) Monitro gweithredu Côd Ymddygiad yr Aelodau;
d) Cynghori a hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion sy'n ymwneud â Chôd Ymddygiad yr Aelodau neu drefnu hyfforddiant ar eu cyfer;
dd) Rhoi golddefebau i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig;
e) Ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro am unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
f) Meddu ar wybodaeth dechnegol, gyfreithiol a gweithdrefnol ddigonol i gyfrannu'n deg ac yn gywir at swyddogaeth y pwyllgor.
ff) Bod yn drylwyr ac yn wrthrychol wrth dderbyn cyngor proffesiynol ac ymateb iddo wrth gynnal cyfarfodydd ac ymdrin â materion gerbron y pwyllgor.

2.2 **Cymryd rhan mewn cyfarfodydd ac wrth wneud penderfyniadau**

a) Cyfranogi'n effeithiol mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Safonau,
b) Gwneud penderfyniadau cytbwys o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, sy'n cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi.

2.3 **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd**

a) Sicrhau uniondeb proses gwneud penderfyniadau'r pwyllgor a'i rôl ei hun drwy lynu wrth y Côd(au) Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill.
b) Hybu a chefnogi llywodraethu da gan y cyngor.
c) Deall rolau priodol cynghorwyr, aelodau cyfetholedig, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu ym maes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau.

3 **Gwerthoedd**

Bod yn ymroddedig i'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus, a'u harddangos:

a) Didwylledd a thryloywder;
b) Gonestrwydd ac uniondeb;
c) Goddefgarwch a pharch
ch) Cydraddoldeb a thegwch;
d) Gwerthfawrogi gwahaniaethau diwylliannol;
dd) Cynaladwyedd.

↥

## 22 Disgrifiad o Rôl yr Aelod Cyfetholedig Craffu

1 **Atebolrwydd**

a) Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu.
b) Cyngor Llawn.
c) Cyrff Rheoleiddio Allanol.

2 **Diben a gweithgareddau'r rôl**

a) Cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r panel craffu, cyflwyno rhaglenni gwaith ac unrhyw grwpiau tasg a gorffen cysylltiedig.
b) Cynrychioli buddion y boblogaeth sy'n derbyn y gwasanaethau a ddarperir neu a gomisiynir gan y darparwyr gwasanaethau cyhoeddus.
c) Cyfrannu gwybodaeth neu sgiliau arbenigol a fydd yn arwain at graffu trylwyr a gwrthrychol ar y materion sy'n cael eu hadolygu.

3 **Adolygu a datblygu polisïau**

a) Cynorthwyo wrth greu, datblygu, gwella a mireinio polisïau'r cyngor.
b) Dod â gwybodaeth a/neu sgiliau arbenigol i'r broses graffu a/neu ddod ag elfen o her allanol drwy gynrychioli'r cyhoedd.
c) Asesu effaith polisïau presennol.

4 **Monitro perfformiad a chyflwyno gwasanaethau**

a) Monitro perfformiad darparwyr mewnol ac allanol yn erbyn safonau a thargedau.
b) Cyfrannu at nodi a lliniaru risgiau.
c) Ymchwilio i achosion perfformiad gwael a mynd i'r afael â hwy.

5 **Hybu gwaith craffu**

a) Hybu'r rôl graffu yn y cyngor a'r tu allan iddo, gan ddatblygu perthnasoedd mewnol ac allanol effeithiol.
b) Dangos ymagwedd wrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth at graffu.
c) Ychwanegu gwerth at waith gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau yr awdurdod trwy graffu effeithiol.

6 **Arweinyddiaeth Gymunedol**

a) Defnyddio trosolwg a chraffu fel modd o fynd i'r afael â materion cymunedol a chynnwys y cyhoedd.
b) Annog rhanddeiliaid i gymryd rhan yng ngwaith yr awdurdod.
c) Datblygu atebion polisi sy'n ddichonadwy ac yn dderbyniol yn lleol.
ch) Datblygu deialog ynghylch blaenoriaethau, amcanion a pherfformiad ymhlith cymunedau a rhanddeiliaid.

7 **Cyfranogi mewn cyfarfodydd**

a) Gwneud paratoadau digonol a phriodol ar gyfer cyfarfodydd drwy ymchwil a sesiynau briffio.
b) Cyfranogi mewn ffordd ragweithiol, hyddysg ac effeithiol, gan ystyried y Côd Ymddygiad, Cyfansoddiad y Cyngor a gofynion cyfansoddiadol eraill.

8 **Gwerthoedd**

8.1 **Bod yn ymroddedig i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:**

a) Didwylledd a thryloywder;
b) Gonestrwydd ac uniondeb;
c) Goddefgarwch a pharch
ch) Cydraddoldeb a thegwch;
d) Gwerthfawrogi gwahaniaeth diwylliannol;
dd) Cynaladwyedd.

↥

## 23 Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Polisi

1 **Atebolrwydd**

a) I Arweinydd y Cyngor;
b) I'r Cabinet;
c) I'r cyngor.

2 **Diben a gweithgareddau'r rôl**

2.1 **Darparu Arweiniad ar y Portffolio a Chymorth i Aelod y Cabinet**

a) Cynorthwyo Aelod y Cabinet i roi arweinyddiaeth wleidyddol o ran portffolios y Cabinet;
b) Darparu cefnogaeth i aelodau'r Cabinet wrth weithredu a chyflwyno polisïau portffolio a newid a chydweddu â'r cyfeiriad yn Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol;
c) Cysylltu â Chadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu a Chynullyddion y Panel Ymchwilio Craffu a gweithio'n agos gyda hwy, a gwneud sylwadau ar adroddiadau yn ôl yr angen.

2.2 **Cyfrannu at bennu'r Agenda Strategol a'r Rhaglen Waith ar gyfer y portffolio**

a) Gweithio gyda'r Cabinet i amlinellu datblygiad polisïau strategol a statudol. Yn amodol ar Aelod y Cabinet yn cael y gair olaf, sicrhau y caiff ewyllys gwleidyddol y mwyafrif ei drosglwyddo i'r Cabinet a'i weithredu ganddo;
b) Darparu cymorth wrth lunio a chyflawni rhaglen waith strategol, yn wleidyddol ac yn statudol. Sicrhau y cedwir blaenraglen waith y portffolio'n gyfoes ac yn gywir.

2.3 **Darparu cynrychiolaeth ar gyfer y portffolio**

a) Cefnogi Aelod y Cabinet yn llawn pan fydd yn rhaid darparu ffigwr cryf, cymwys a pherswadiol i gynrychioli portffolio. Bod yn arweinydd mewn enw mewn cyfarfodydd â rhanddeiliaid.

2.4 **Adrodd a rhoi cyfrif**

a) Adrodd fel y bo'n briodol i Arweinydd y Cyngor, y cyngor, y Cabinet, Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu, cyrff rheoleiddo a'r cyfryngau;
b) Ymddangos gydag Aelod y Cabinet, os oes angen, gerbron Pwyllgor y Rhaglen graffu mewn perthynas â materion yn y portffolio.

2.5 **Cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd Cabinet a'i brosesau gwneud penderfyniadau**

a) Dangos diddordeb mewn portffolios eraill a chefnogaeth ar eu cyfer;
b) Adnabod materion sy'n gyffredin i nifer o bortffolios neu sy'n faterion cydgyfrifoldeb.

2.6 **Arwain partneriaethau ac arweinyddiaeth gymunedol**

a) Cynorthwyo Aelod y Cabinet i roi arweinyddiaeth i bartneriaethau strategol a phartneriaid lleol wrth fynd ar drywydd nodau a blaenoriaethau cyffredin;
b) Trafod a threfnu mewn achosion o flaenoriaethau sy'n wahanol ac anghytuno;
c) Darparu arweinyddiaeth gymunedol a dinasyddiaeth weithredol drwy ddangos gweledigaeth a rhagwelediad.

2.7 **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd**

a) Hybu a chefnogi llywodraethu da o'r cyngor a'i faterion;
b) Hybu a chefnogi llywodraeth agored a thryloyw;
c) Cefnogi perthnasoedd parchus, priodol ac effeithiol â gweithwyr y cyngor a glynu wrthynt;
ch) Glynu wrth Gôd Ymddygiad yr Aelodau, Protocol Aelodau/Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus.

2.8 **Darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd**

a) Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol er mwyn hwyluso cyfranogaeth, cyfranogiad a phrosesau gwneud penderfyniadau clir;
b) Dangos gonestrwydd ac amhleidioldeb wrth wneud penderfyniadau sy'n cytgordio â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi.

c) Cyfathrebu ar ran Arweinydd y Cyngor a'r Cabinet ar strategaethau, polisïau, gwasanaethau a gweithdrefnau'r cyngor.

3 **Gwerthoedd**

3.1 **Bod yn ymroddedig i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:**

a) Gweithio gyda'n gilydd;
b) Arloesedd;
c) Canolbwyntio ar bobl.

↥